# Cenn@d

TACHWEDD 12 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 246


## Cannoedd yn llenwi Eglwys Gadeiriol Casnewydd ar gyfer gorseddu 15fed Archesgob Cymru



Cafodd Archesgob Cymru, y Parchedicaf Cherry Vann, ei gorseddu mewn gwasanaeth cenedlaethol yn Eglwys Gadeiriol Sant Gwynllyw, Casnewydd, ddydd Sadwrn, Tachwedd 8fed.

Roedd y seremoni yn dilyn ethol yr Archesgob gan Goleg Etholiadol yr Eglwys yng Nghymru ym mis Gorffennaf.

Yn wreiddiol o Swydd Gaerlŷr, ordeiniwyd Cherry Vann yn ddiacon yn 1989. Yn 1994, roedd ymhlith y menywod cyntaf i gael eu hordeinio'n offeiriaid yn Eglwys Loegr. Ar ôl gwasanaethu mewn amryw o rolau yn Esgobaeth Manceinion, gan gynnwys fel caplan i'r gymuned fyddar, bu'n Archddiacon Rochdale am 11 mlynedd cyn cael ei chysegru'n Esgob Mynwy yn 2020. Y mae hi'n parhau yn y swydd honno.

**Beth sy'n digwydd mewn gorseddiad?**
Yn y seremoni yn Eglwys Gadeiriol Sant Gwynllyw, cafodd Archesgob Cherry ei gorseddu yn y Gadair Archesgobol o flaen yr Allor Uchel. Bydd y Gadair yn aros yn Eglwys Gadeiriol Casnewydd drwy gydol ei chyfnod fel Archesgob.

Wrth gyrraedd, cafodd yr Archesgob ei chroesawu gan aelod ifanc o'r corws. Digwyddodd hyn wrth y fedyddfaen yn rhan hynaf yr eglwys gadeiriol, lle sefydlodd Gwynllyw ei eglwys yn y 5ed ganrif. Yn dilyn hyn, bu gweithred o edifeirwch dan arweiniad yr Archesgob, wrth iddi benlinio ger y Gadair.

Yn ddiweddarach yn y gwasanaeth, cafodd y llw swyddogol ei dyngu gan ddefnyddio Beibl Archesgobion Mynwy – a ddefnyddiwyd yn seremonïau gorseddu pob Esgob Mynwy blaenorol a ddaeth yn Archesgob Cymru: Edwin Morris, Derek Childs, Rowan Williams, ac yn awr Archesgob Cherry.

Yn dilyn y gorseddiad, a'r croeso gan y gynulleidfa o bob cwr o Gymru a thu hwnt, cymerodd yr Archesgob ei sedd ar yr orsedd archesgobol wrth i Gôr yr Eglwys Gadeiriol ganu 'The Call of Wisdom' gan Will Todd, a gyfansoddwyd ar gyfer Ei Diweddar Fawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail ac a ganwyd yn Eglwys Gadeiriol Sant Paul ar gyfer ei gwasanaeth Jiwbilî Diemwnt.

Yna pregethodd Archesgob Cherry cyn arwain y gynulleidfa wrth iddyn nhw adrodd Credo Nicea, sydd eleni yn nodi ei phen-blwydd yn 1700 oed.

Cyflwynodd Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn, corff partneriaeth eglwysi Cymru, yr Archesgob i arweinwyr eglwysig a chrefyddol o bob cwr o Gymru, tra cyflwynodd yr Esgob David Morris yr Archesgob i gynrychiolwyr o Eglwys Loegr, Eglwys Iwerddon, Eglwys Esgobol yr Alban, ac Archesgob Uppsala, sy'n cynrychioli Eglwysi Porvoo – cymdeithas ecwmenaidd Ewropeaidd o eglwysi Anglicanaidd ac Efengylaidd Lutheraidd, y mae'r Eglwys yng Nghymru yn aelod ohoni.

Daeth gweddïau ar ôl hynny, dan arweiniad disgyblion o Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Teilo yn Esgobaeth Llandaf ac Ysgol Penrhyn Dewi yn Esgobaeth Tyddewi.

Daeth y gwasanaeth i ben gyda Gweithred o Ymrwymiad i genhadaeth yr eglwys, a gorffennodd gydag aelod hŷn o'r côr yn gofyn i'r Archesgob a fyddai hi'n hyrwyddo lles ac undod yr Eglwys a bod yn Fugail Da i'w phobl ar ôl esiampl Crist.

Yna gorymdeithiodd yr Archesgob a'r clerigwyr allan o'r eglwys gadeiriol.

Arweiniwyd y gerddoriaeth ar gyfer y gwasanaeth gan y Cyfarwyddwr Cerdd, Tom Coxhead, a Chôr yr Eglwys Gadeiriol.

Roedd y gwasanaeth yn cynnwys y Kyrie yn y Gymraeg a gyfansoddwyd gan Paul Mealor, a ganwyd yng Nghoroni'r Brenin Siarl yn 2023. Fe'i canwyd gan y bas-bariton ifanc Owain Wyn Rowlands. Cymerodd y cyn-Delynores Frenhinol, Alis Huws, a chwaraeodd yn y Coroni hefyd, ran yn ogystal.

Arweiniodd Croes Cymru, croes orymdeithiol a roddwyd gan y Brenin fel rhodd i'r eglwysi yng Nghymru ar gyfer ei chanmlwyddiant, yr orymdaith i'r eglwys gadeiriol.

Dywedodd y Tra Pharchedig Ian Black, Deon Eglwys Gadeiriol Casnewydd: "Mae'n bleser gallu croesawu pawb i'r Gadeirlan ar gyfer yr eiliad arbennig hon ym mywyd yr Eglwys yng Nghymru. Mae hyn yn nodi dechrau newydd, wrth i ni weddïo y gallwn, gyda'n gilydd, geisio bod yn gludwyr goleuni a gobaith yn ein cenedl."

Cafodd y gwasanaeth ei ffrydio'n fyw ar gyfryngau cymdeithasol ac ar wefan yr Eglwys yng Nghymru i alluogi cyfranogiad ehangach.

Cynhaliwyd gorseddiad cyntaf Archesgob Cymru ar 1 Mehefin 1920 yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Roedd hyn yn dilyn Datgysylltiad yr Eglwys yng Nghymru, pan ddaeth yn annibynnol ar Eglwys Loegr. Gallwch wylio'r gwasanaeth yma: Enthronement of the First Archbishop of Wales June 1st 1920.

Archesgob Cherry yw'r fenyw gyntaf i wasanaethu fel Archesgob Cymru, sydd yn gwneud y gorseddiad hwn yn achlysur gwirioneddol arwyddocaol a hanesyddol.

Wrth gael ei hethol gyntaf fel Archesgob, dywedodd: "Y peth cyntaf y bydd angen i mi ei wneud yw sicrhau bod y materion a godwyd yn ystod y chwe mis diwethaf yn cael eu trafod yn iawn a'm bod yn gweithio i ddod ag iachâd a chymod, ac adeiladu lefel dda iawn o ymddiriedaeth ar draws yr Eglwys a'r cymunedau y mae'r Eglwys yn eu gwasanaethu."

Dywedodd Esgob Llanelwy, y Gwir Barchedig Gregory Cameron: "Rwy'n hynod falch o groesawu Cherry fel 15fed Archesgob Cymru. Yn ystod ei chyfnod fel Esgob Mynwy, daeth ag iachâd mewn cyfnod o angen, a gweledigaeth o'r Eglwys fel cymuned wedi'i hadnewyddu gan Grist y gellir ei chymhwyso a'i hehangu ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru gyfan."

(O wefan yr Eglwys yng Nghymru: https://www.churchinwales.org.uk/cy/news-and-


Galwad i'r Gymuned
Tudalen 2

O Gefn Gwlad
Perthyn
Tudalen 7

Gweddi dros ardal Powys
Tudalen 8

# Pedair iaith, un genhadaeth





Brynhawn dydd Sadwrn, 1 Tachwedd, daeth cynrychiolwyr o dair cynulleidfa i ymuno â ni yng nghapel Cymraeg Moreia, Leytonstone, dwyrain Llundain, sef cyfeillion o'r Forest Baptist Church ac Eglwys Rwmaneg Hope and Grace sy'n cynnal eu hoedfaon yn y capel, ynghyd â chyfeillion o gymuned Gristnogol UK Zofate sy'n hanu o Mizoram yng Ngogledd-ddwyrain India. Atseiniai'r capel â sŵn y pedair iaith a siaredid gan y cwmni, sef Cymraeg, Mizo, Rwmaneg a Saesneg.

Rydym fel gofalaeth wedi bod yn datblygu ein cysylltiadau ag UK Zofate ers peth amser ac roedd yn hyfryd gweld rhai o blant y mudiad yn y cyfarfod. Roedd dau aelod o Eglwys Rwmaneg Hope and Grace wedi teithio'r holl ffordd o Gaergrawnt i fod gyda ni.

Yn ystod y prynhawn cyflwynodd Mr Tony Platt ein gweledigaeth yn Eglwys y Drindod ac fel gofalaeth ynghylch estyn allan i'r gymuned Gymreig yn Llundain. Clywyd gan Miriam Watling, ein Galluogwr Ymestyn Allan a Thwf, sut yr oedd hyn eisoes yn digwydd yn Nwyrain Llundain drwy Ddreigiau Bach y Dwyrain, sef grŵp rhiant a phlentyn y mae hi'n ei arwain bob bore Mercher yn ystod y tymor ysgol. Clywsom hefyd am ymdrechion un o aelodau'r Forest Baptist Church, sy'n athro hyfforddedig ESOL (Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill), i estyn allan drwy ddosbarthiadau Saesneg a gynhelir yn y llyfrgell leol.

Cyfeiriodd Larry Zadeng o UK Zofate at waith anrhydeddus rhai o Gymru fu'n gwasanaethu fel cenhadon yng Ngogledd-ddwyrain India, gan gynnwys Gwen Rees Roberts, y Bala, a Gwen Evans, a fu'n flaenor ffyddlon a gweithgar yng Nghapel Cymraeg Wood Green, ac yna yn Eglwys y Drindod, yn Cockfosters ac yn Leytonstone.

Fe gawsom ni i gyd ein calonogi a'n hadnewyddu wrth addoli dan arweiniad aelodau UK Zofate, a dod i adnabod ein gilydd yn well dros *pizza*. Fe wnaethon ni rannu â'n gilydd yr hyn y mae Duw yn ei wneud yn ein plith a chawsom gyfle i weddïo dros ein gilydd a gwaith Teyrnas Dduw yn Nwyrain Llundain a thu hwnt.

*Richard Brunt*



Tony Platt

## Y Parchedig Arthur Meirion Roberts

Gyda thristwch y clywsom am farw'r Parchedig Arthur Meirion Roberts yn dawel yng Nghartref Gofal Plas-y-don, Pwllheli, ar 29 Hydref 2025 yn 99 mlwydd oed.

O Fanceinion yn wreiddiol, fe ddechreuodd Arthur Meirion ei weinidogaeth yng ngofalaeth Ysgoldy, Deiniolen, gan droi wedyn am y de a gofalaeth Port Talbot. Bu ei weinidogaeth yn un amrywiol, a gwasanaethodd fel caplan ym Môn wrth i atomfa'r Wylfa gael ei chodi. Ef oedd y caplan cyntaf mewn diwydiant ar Lannau Dyfrdwy. Bu'n warden yn Nhrefeca ac yn weinidog wedyn ar derfyn ei yrfa yng nghapeli Penmount a South Beach, Pwllheli. Gwnaeth gyfraniad mawr yn y Corff am nifer o flynyddoedd fel Cadeirydd Bwrdd y Genhadaeth.

Mae'n gadael ei briod, Morfydd, eu mab, Rhys, a'i gymar, Hilary, a'u hwyres Carys Wyn, yn ogystal ag un chwaer, Myfanwy. Fe'i rhagflaenwyd gan eu diweddar fab, Dewi. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf fel darllenwyr efo'i deulu i gyd.

(Cynhelir angladd preifat i'r teulu ym Mynwent Deneio, Pwllheli, fore Sadwrn, 15 Tachwedd, a gwasanaeth cyhoeddus o ddiolch yng Nghapel y Drindod, Pwllheli, i ddilyn am 11 o'r gloch dan arweiniad ei weinidog, y Parchedig W. Bryn Williams.)

# Encil i godi calon yn y Bowydd



Er mor arw oedd yr hin fore Sadwrn, 25 Hydref, cawsom groeso gwresog yng Nghapel y Bowydd, Blaenau Ffestiniog, gan ein Llywydd, Arthur Rowlands, ar gyfer Encil Hydref y Weinidogaeth Iacháu yn y Gogledd. Ar ôl paned, aethom drwodd i'r Festri Fawr, lle roedd y golau'n llewyrchu drwy'r ffenestri llydan gan godi ein calonnau, a chawsom arweiniad teilwng am wella merch Jairus.

Yna, aeth y Parch. Nesta Davies â ni at wahoddiad Iesu ym Mathew 11:28–30, a'r anogaeth i gymryd yr iau, offer dieithr yn yr oes fodern, sy'n ein galluogi i helpu ein gilydd, rhannu'r baich a chael gorffwystra.

Dros ginio daethom i adnabod wynebau newydd, a thrafod lle i fynd yn y gwanwyn.

Ein Llywydd a'n harweiniodd mewn eiriolaeth dros y cleifion, a chadwyd mewn cof lawer o selogion oedd yn methu bod gyda ni.

Uchafbwynt y dydd oedd cael ein harwain at Fwrdd y Cymun gan un a fagwyd yn y capel ac sydd yn ficer yn Ardal Colwyn, sef y Parch. Glyn Wise. Dewisodd stori Iesu'n codi ei ffrind Lasarus o'r bedd, oedd yn glo teilwng i encil a gododd ein calonnau i gyd, ac aethom adre wedi ein hadfywio.

*Nesta Davies*
*Ysgrifennydd*

# Ysgol Sul Noddfa Llanbedr Pont Steffan



Cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch wedi ei llunio gan Janet yn Noddfa, Llanbedr Pont Steffan, ddydd Sul, 19 Hydref, yng ngofal yr ysgol Sul. Braf oedd gweld y plant, y bobl ifanc a'r rhieni yn cymryd rhan a phawb, o'r lleiaf i'r hynaf, yn cyflawni eu gwaith yn ardderchog.

Thema rhan gyntaf y rhaglen oedd 'Dwylo' a chyfeiriwyd at ddwylo Iesu Grist yn gwella'r cleifion, yn bendithio plant ac yn gweddio, ac yn y diwedd fel y bu iddo 'roi ei ddwylo pur ar led' er mwyn ei bobl yn y byd. Pleser oedd gwrando ar ddarlleniadau o'r Beibl, gweddïau, unawdau, sgyrsiau a grwpiau canu, a bu'r plant lleiaf yn codi gwên wrth ddiolch am ddwylo i wneud amrywiaeth o bethau. Yn yr ail hanner diolchwyd i Dduw am ei holl fendithion, gan gofio hefyd am y miloedd sy'n dioddef.

Ar y diwedd roedd pawb yn uchel eu canmoliaeth ac yn datgan eu mwynhad o gael cydaddoli â'r ysgol Sul mewn oedfa lawn bendithion. Mawr yw ein diolch i deuluoedd yr ysgol Sul ac aelodau Noddfa am eu rhoddion i'r Banc Bwyd lleol. Cynhelir ein gwasanaeth Nadolig ar 21 Rhagfyr am 11.15 y bore.

*Janet Evans*

## Neges gan y Parch. John Owen, Rhuthun

Neges i hybysu fy mod yn rhoi'r gorau'n llwyr i wasanaethu yn yr eglwysi ar y Sul, a hynny o ddiwedd mis Tachwedd eleni. Nid yw amgylchiadau bellach yn rhwydd gan nad wyf yn medru dreifio car ar gyngor y meddyg. Carwn i'r eglwysi wybod fy mod wedi gwerthfawrogi eu gwahoddiadau a'u croeso ar hyd y blynyddoedd, ac yn dymuno'n dda iddyn nhw mewn cyfnod digon dyrys ar sawl ystyr

# Galwad i'r Gymuned

**Tudor a Nicola Thomas-Botwood sy'n rhannu eu hanes o fod yn deithwyr rhyngwladol i fod yn weinidogion yng nghymuned Llidiart-y-waun, ger Rhaeadr Gwy. Clywn sut y maen nhw wedi gweld Duw ar waith yn y cymunedau o'u cwmpas …**






'Fu erioed raniad yma rhwng yr eglwys a'r gymuned – mae llawer o bobl yn aelodau craidd o'r ddwy!'

Ar ôl taith bywyd hir a rhyngwladol, mae Duw wedi arwain Tudor a Nicola Botwood yn ôl i gymuned wledig Llidiart-y-waun, ger Rhaeadr Gwy yn y canolbarth. Ac wrth iddyn nhw a'r eglwys weddïo ynghylch y camau nesaf yn eu hardal, mae'n ymddangos bod y gair 'cymuned' wrth galon y mater.

### Galwad yn ôl

'Ces i fy magu yn yr ardal hon mewn teulu amaethyddol,' eglura Tudor, 'ond fe aeth ein gyrfaoedd mewn caplaniaeth gyda'r fyddin â Nicola a minnau i bob cwr o'r byd.' Pan gafodd ei fam ddamwain tua diwedd cyfnod Covid, daeth yn amlwg fod angen iddynt ddod o hyd i ffyrdd i'w chefnogi drwy fyw yn agosach ati. Fel mae'n digwydd, roedd gofalaeth gyntaf Tudor ddegawdau cyn hynny wedi cynnwys Beulah, Llidiart-y-waun, a phan glywodd yr eglwys am y symudiad gwahoddwyd Nicola i gymryd oedfaon yno.

'Cyn hir roedd yr eglwys eisiau sgwrs gyda ni am weinidogaeth ar y cyd – ac roedd yn rhaid i ni ddweud wrthyn nhw nad oeddem yn barod am hynny eto,' meddai Nicola gan chwerthin. 'A dyma nhw'n dweud – "Rhowch wybod pan fyddwch chi, 'te!"'

Yn y diwedd, daethant i gytundeb â'r eglwys fach wledig hon, a chanddi ddeuddeg o aelodau, i ymroi fel cwpl i weinidogaeth ran-amser ar y cyd.

### Cymuned wledig

'Mae'r ardal wedi newid yn gyflymach nag arfer ers cyfnod Covid,' eglura Tudor. 'Mae gyda ni bobl yn y cylch nawr sy'n mynd yn ôl bedair neu bum cenhedlaeth – ac yna, ar y llaw arall, mae yna bobl sydd wedi bod yma ers dim ond pedair neu bum mlynedd.'

Ond mae'n ymddangos bod llawer o'r newydd-ddyfodiaid i ganolbarth Cymru yn dymuno ymuno â'r gymuned leol, ac mewn ardal fel hon 'dyw pwysigrwydd cymuned erioed wedi lleihau, mewn gwirionedd.

'Yr allwedd yw cymryd rhan yn lleol,' meddai Nicola. Felly, ymunodd y ddau ohonynt yn fuan â grwpiau a mentrau amrywiol yn yr ardal, gan gynnwys y cyngor tref, y frigâd dân, Ambiwlans Sant Ioan a gwaith mewn ysgolion.

'Mae'n helpu'n aruthrol gyda sut mae pobl yn gweld yr eglwys, ac mewn cymuned fel hon mae popeth yn gysylltiedig. Er enghraifft, gallwch chi gynnal gwasanaeth mewn ysgol gynradd un diwrnod, yna efallai y byddwch chi'n helpu mam-gu un o'r plant hynny y diwrnod wedyn drwy'r gwaith gyda Sant Ioan. Yn swyddogol, gweinidogion rhan-amser ydyn ni, ac mae hynny'n rhoi amser i ni gymryd rhan mewn pethau eraill fel gwirfoddolwyr, nid dim ond fel "gweinidogion".'

### Cymuned eglwysig sy'n tyfu?

Mae'n amlwg fod traddodiad yn rhan gref o fywyd yr eglwys yn Beulah, capel bach hynafol yn y wlad yng nghanol caeau gwyrdd a bryniau. Ond fel y dywed Tudor, 'Mae'r eglwys yn barod iawn i arbrofi. Ac rwy'n credu bod y gynulleidfa'n ymwybodol ein bod ni'n gweinidogaethu mewn cyd-destun sy'n llawn cyfleoedd.'

Mae gwaith plant ac ieuenctid yr eglwys wedi tyfu'n ddiweddar. Fesul un neu ddau maen nhw'n gweld pobl newydd yn dod atyn nhw, yn awyddus i ddysgu mwy am y ffydd. Dim ond un ystafell sydd yna ar gyfer y gwaith plant, ac felly, fel y dywedodd Nicola, 'Dydyn ni ddim yn ceisio gwneud i bethau dyfu ormod!'

Mae'r ddau'n ymwybodol o agwedd ysbrydol agored, newydd, o'u cwmpas, a'r hyn mae'n ei olygu nawr mewn eglwys sydd wastad wedi bod yn rhan allweddol o'r gymdeithas glòs o'i chwmpas.

'Does dim raid i ni feddwl sut ydyn ni'n cyrraedd y bobl hyn,' meddai Tudor. 'Roeddwn i'n cynnal gwasanaeth angladd yn ddiweddar, ac roedd cwpl yno – roedden nhw'n gwybod pwy oeddwn i oherwydd dyna sut mae hi ffordd hyn – a dyma nhw'n gofyn i mi fynd i'w gweld nhw i siarad am y ffydd Gristnogol.' Mae hynny'n amlwg yn rhan bwysig o'r ddeinameg yma, gyda phobl yn dod â'i gilydd i bethau'r eglwys.

Ychwanegodd Nicola, 'Yr eglwys sy'n arwain yma – neu'r Ysbryd Glân. A phan fydd wynebau newydd neu rai cyfarwydd yn troi i fyny, maen nhw'n teimlo'n gyfforddus yn ein plith. Mae croeso iddyn nhw! Duw sy'n gwneud y gweddill.'



# O Gefn Gwlad

## Perthyn

Rhaid i chi faddau'r testun y tro hwn, a maddau i mi gan mai hunanfoddhad a'i rhoddodd i mi. Yn ddiweddar iawn deuthum yn hendaid unwaith eto, am y degfed tro, ac mae'r ffaith honno, fel y gallwch feddwl, wedi fy moddio'n fawr. Yn enwedig gan fod gen i o hyd y synnwyr a'r ymwybyddiaeth ymenyddol i fwynhau'r ffaith a'r gallu i sylweddoli ei harwyddocâd, rhywbeth, yn drist iawn, nad yw'n bod gan lawer o'm hoedran i ac iau hefyd. Mor ffodus yr wyf. Gen i'r boddhad hefyd eu bod, y deg ohonynt, yn Gymry Cymraeg, yn byw yng Nghymru, yn mynychu ysgolion Cymraeg – y rhai sydd yn yr oed hwnnw, ac yn bwysig iawn, hyd yn oed y rhai pellaf, o fewn cyrraedd imi eu gweld yn weddol aml.

Dyna un perthyn – gwaedoliaeth, y perthyn sydd yn y gwaed ac sy'n gallu ymestyn yn ôl am sawl cenhedlaeth. Y perthyn clòs, cariadus sy'n arwain at gonsýrn pobl am ei gilydd a'r perthyn y mae cariad yn brif nodwedd yr ymlyniad. Wel, felly y dylsai fod, ond nid felly y mae hi yn aml, yn anffodus. Y mae i'r perthyn hwn ei gymhlethdodau i lawer, a ffraeo teuluol am bob math o resymau, yn enwedig dros eiddo, yn gallu bod yn rhywbeth cas iawn. Gwreiddyn pob drygioni yw arian, meddai hen gân boblogaidd Saesneg oesau'n ôl. Nid i aelodau ein teulu ni; nid oes gair cas na chynnen yn bodoli rhyngom, neb ohonom, a hynny am fod y gadwyn deuluol yn un mor gref, er bod gennym, cofiwch, ein barn a'n syniadau gwahanol am lawer peth.

Y mae yna berthyn cymdeithasol hefyd, ein perthynas â'r eglwys yr ydym yn aelodau ohoni. Ni wn i ystadegau'r perthyn hwn mewn gwahanol eglwysi, ond gwn fod yna ym mhobman rai sy'n aelodau nad ydyn nhw byth yn mynychu. Mae'r un peth yn wir am gymdeithasau eraill o bob math. Rhyw berthyn amhersonol, eitha hawdd ei arddel, yw hwn. Pobl yw'r rhain sy'n rhyw ddilyn o hirbell. Cofiaf un yng Ngwyddelwern, un yr oeddwn yn eitha ffrindie efo fo, oedd yn aelod yn ein capel ni ond byth yn mynychu, a finnau hwyrach wedi mynd i'w ben o am hynny. Yntau'n dweud wrthyf unwaith ar ddiwedd blwyddyn: 'Dwi wedi talu'r weinidogaeth wyddost ti, yr insiwrans yntê!'

Ond y mae yna berthyn arall, ac i bob un sy'n aelod selog o gapel neu eglwys, y mae'r perthyn hwn yn bwysig dros ben, ac yn gallu bod yn broblemus tu hwnt hefyd. Gall y Beibl wneud iddo swnio'n hawdd, a'r gorchymyn inni garu ein gilydd yn cael ei ailadrodd fwy nag unwaith. Nid hynny'n unig ond 'cerwch eich gelynion' hefyd. Ie, dyna'r gwir berthyn Cristnogol, y perthyn sy'n gariad ac y datganodd Crist ei hun amdano a'i weithredu yn ei gerddediad ar y ddaear.

Fe ganwn amdano yn llawen ysgafala. Be' sy well na geiriau doeth wedi eu llunio'n grefftus yn cael eu canu ar dôn dda? Ac y mae digonedd ohonynt sy'n sôn am gariad Duw, cariad Crist a chariad at bob dim dan haul, a phwysigrwydd cariad yn ein bywydau ninnau. Ond y mae gan y natur ddynol, onid oes, y ddawn i ganu am gariad pan mae dichell yn y galon!

Ac amhosib gweithredu'r cariad hwn, medden ni, os byddwn onest. Ystyriwch garu Putin, neu Assad, llofrudd y tair hogan bach yn Southport, a chyfeirio at yr enghreifftiau mwyaf eithafol. Dowch yn nes adre a cheisiwch garu yr un wnaeth dro sâl efo chi, yr un falle dorrodd i mewn i'ch cartref a dwyn eich eiddo (a do, rydw i a'r teulu wedi cael y profiad hwnnw hefyd). Neu beth am garu lladron defaid a'r beiciau cwad ymysg y frawdoliaeth amaethyddol? Na, mae'r syniad o garu'r cyfryw rai yn mynd â phethau yn rhy bell o lawer. A charu'r un sy'n cysgu ar y stryd, yn frwnt ei ddillad a'i gorff? Ych a fi!

Yr ateb hawdd, falle, yw dweud y gall y rhai gafodd dröedigaeth, y rhai gyfarfu â Christ ar ffordd Damascus, garu pawb yn ddiwahân. Nid wyf fi yn un o'r rheini, ac nid yw'r rhan fwyaf o'r aelodau eglwysig dwi'n eu hadnabod yn rhan o'r garfan honno chwaith. A yw hyn yn esgus inni beidio caru? Mi wyddom yn reddfol, siawns, mai cariad a chymod ddaw â heddwch i'n byd, os daw o byth – mai yn yr efengyl y mae'r ateb terfynol. Ond mae'n anodd iawn gweld cariad yn 'perffaith gario'r dydd', yn tydi. Beth felly a wnawn ni yn y cyfamser? Beth ddylsai ansawdd ein perthynas â'n gilydd fod? At beth y dylem geisio ymgyrraedd wrth ddymuno'n dda i'n gilydd, yn enwedig fel y mae'r Nadolig yn nesáu? Y mae heddwch, onid yw, yn golygu mwy na pheidio cweryla a rhyfela.

Diolch i awdur anhysbys y gwelais ddyfyniad o'i waith yn rhywle, fe gefais ryw fath o oleuni ar y broblem, digon da i mi heddiw, beth bynnag, a dyma ddywedodd o: 'Serch i un, cyfeillgarwch i ychydig, ewyllys da i bawb.' Tair agwedd ar gariad a pherthynas. Serch i un – syniad braidd yn hen ffasiwn erbyn hyn, falle! Cyfeillgarwch i ychydig – gwir a didrafferth ei weithredu. Ewyllys da i bawb. A hwn yw'r un gwirioneddol anodd – nid yr ewyllys da ond y pawb! Na, nid crefydd hawdd yw Cristnogaeth.

*Elfyn Pritchard*

**Eglwys Bresbyteraidd Cymru**

GOLEUNI'R BYWYD


A ydych yn berson brwdfrydig, yn llawn syniadau, sy'n fodlon mentro i feysydd gwahanol?

A hoffech chi fod yn rhan o dîm Gweinidogaeth a Chenhadaeth Henaduriaeth Myrddin fel Swyddog Ymestyn Allan?

Os felly, cysylltwch ag Ian 07989 365463 / ian.sims@ebcpcw.cymru am sgwrs.

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 5 – Ymson Jochebed

Rwy'n fam i dri phlentyn, er y bu rhaid imi adael i un fynd er mwyn achub ei fywyd.

Pan ddaeth cyfraith y dyn dwl i rym, disgynnodd cysgod dros gartrefi'r ardal. Clywyd sgrechiadau'r babanod ac udo'r mamau fel llafnau dur yn torri'r awyr. Clywais lais oddi mewn imi'n dweud y byddai fy maban i'n cael ei arbed. Ond, roedd angen dogn dda o ymddiriedaeth yn y llais hwnnw.

Pan ddaeth yr amser, daeth y fydwraig ataf yng nghysgodion y nos, a'r ofn yn fflachio yng nghannwyll ei llygaid. Ganwyd fy mab, ac o'r eiliad cyntaf gwelais hud heddwch Duw yn ei wedd. Teimlais ym mêr fy esgyrn fod yr Arglwydd yn adnabod y bychan ac yn ei ddewis. Roedd hwn yn perthyn i Dduw.

Am dri mis, neidiwn wrth glywed unrhyw sŵn anghyfarwydd, yn enwedig sŵn traed milwyr yn agosáu. Byddai Miriam yn sefyll ger y drws yn gwylio, ac Aaron oedd yr un i fentro allan i ymofyn bwyd imi ei goginio. Bob nos, sibrydwn yr addewid i glustiau'r un bach: y byddai Duw'n gwarchod drosom.

Ond er inni geisio ein gorau i'w guddio, roedd llechu yn y dirgel yn anodd. Roedd fy mab yn tyfu a'i chwerthin yn gryfach. Fedrwn i mo'i dawelu a daeth yn amlwg bod yn rhaid imi ystyried y peth anoddaf posib. Rhwygai'r boen yn fy mron fel mellten gas. Roedd yn rhaid cael cynllun a daeth syniad i'm meddwl; treuliais oriau'n creu basged o frwyn. Yna, es â'm hanwylyn bach draw at yr afon a'i osod ar y dŵr. Siarsiais Miriam i aros nid nepell oddi wrtho i wylio. Anodd oedd cerdded oddi yno, a'm calon yn gorlifo o gariad ac ofn.

Drannoeth, daeth merch Pharo, Bitheia, i ymdrochi. Gwelodd y fasged frwyn a dagrau'r baban yn disgleirio ar ei fochau iach – y baban tlysaf a welsai erioed. Synhwyrodd hithau fod rhywbeth arbennig am y baban a dewisodd fynd ag ef gyda hi i'r palas. Ond roedd hi'n ferch i Pharo, a gwyddai na ddylai ddweud wrth ei thad. Roedd dewis ei gadw'n beryglus. Ynghanol ei meddyliau, doedd hi ddim wedi sylwi ar y ferch ifanc yn dod tuag ati.

Wedi dychwelyd, ces yr hanes gan Miriam, a dywedodd y gallwn i fynd i fagu'r baban. Do'n i ddim yn gwybod beth i'w feddwl: byddai rhaid imi esgus am weddill fy mywyd, ond eto fe allwn weld fy mab a bod yn agos ato. Os mai dyma gynllun Duw, penderfynais gydymffurfio a derbyn fy lle yng nghymhlethdod tapestri'r stori.

Wrth ei fagu, dysgais iddo holl hanesion ein pobl. Dywedais wrtho ein bod yn ddieithriaid yn y wlad, ond nad oedd Duw wedi ein hanghofio. Ro'n i'n benderfynol y byddai'n gwybod i bwy y perthynai. Siaradais am Dduw ac am ei addewid a'i gysur.

Aeth y blynyddoedd heibio, ond gwyddwn bob amser nad oeddwn wedi'i golli mewn gwirionedd. Rhoddais Moses i'r un Crëwr ag a greodd ddŵr yr afon a'r cefnfor. Ac rwy'n falch ohono, mor falch. Tyfodd i fod yn ddewr ac yn arweinydd cenedl. Ef oedd yr un i arwain y bobl drwy'r gagendor yn y môr, a deallais fy mod innau wedi gwneud rhywbeth mawr. Creodd fy Nuw fwlch rhyngof fi a fo, ond drwy hynny digwyddodd rhywbeth mwy, rhywbeth arbennig iawn. A dyma beth a ddysgais: wrth roi'r hyn yr ydym yn ei garu yn nwylo Duw, fe fydd Ef yn rhoi yn ôl inni'n lluosog drwy ei ras.

### Holi

- Pa neges sydd inni yn newrder Jochebed yn sefyll yn gadarn yn wyneb cyfraith ei dydd?
- Ydych chi, neu rywrai wyddoch chi amdanynt, wedi gorfod wynebu sefyllfa oedd yn rhy gymhleth i'w rheoli? Pa agwedd fu o gymorth yn y sefyllfa honno?
- Oes 'afonydd' modern yr ydym yn gorfod rhoi eraill ynddynt ac ymddiried y bydd Duw'n bresennol drwy'r profiad? Oes mantais o lynu wrth obaith herfeiddiol?
- Sut allwn ni ddangos empathi heddiw fel y gwnaeth merch Pharo? Pa wersi sydd inni yma wrth ymrafael ag annhegwch, erledigaeth, a thrais yn ein cymdeithas?
- Oes 'tymhorau' o roi a dychwelyd yn digwydd mewn perthynas ymysg teuluoedd neu gyfeillion, neu eglwysi hyd yn oed?

### Gweddi

Aros gyda ni ym mhob penderfyniad a wnawn. Gwna inni sylweddoli bod doethineb weithiau'n golygu gwneud penderfyniadau anodd. Aros gyda ni wrth inni orfod wynebu canlyniadau ein gweithredoedd. Gwna ni'n wylaidd wrth dderbyn na allwn reoli popeth. Aros gyda ni yn ein profiadau braf a heriol. Gwna ni'n ddiolchgar ym mhob peth. Aros gyda ni, a gwna ni'n blant i Ti. Amen.

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 16 Tachwedd, am 7:30yh – Stafell Fyw**
Bydd Rhodri Gomer yng Nghaerdydd i ddysgu mwy am elusen sy'n taclo dibyniaeth, ymddygiad niweidiol a phoen emosiynol. Ymhlith y cyfranwyr mae Wynford Ellis Owen a'r Parch. Rhys Locke o'r Creunant, ger Castell-nedd. Cawn berfformiad gan Gôr Canna a mwynhau gwledd o emynau.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 16 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp**
Cymanfa Gogledd Penfro – John S. Davies yn cyflwyno detholiad o emynau o'r gymanfa

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 16 Tachwedd, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Kathryn Stowers, Casnewydd

# Cymorth Cristnogol Pwllheli yn cyflwyno tystysgrif gwasanaeth oes

Mae Lena Pritchard, cyn-drefnydd gyda Chymorth Cristnogol Pwllheli, wedi bod yn rhan o nifer fawr o ddigwyddiadau dros y blynyddoedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw codwyd dros £137,000 yn yr ardal ar gyfer gwaith Cymorth Cristnogol ar draws y byd.

Wrth iddi gamu i lawr fel trefnydd yn ddiweddar, cyflwynwyd tystysgrif gwasanaeth oes i Lena mewn te syrpréis yng Nghanolfan Arddio Tyddyn Sachau, y Ffôr, ger Pwhelli.

Sefydlwyd Cymorth Cristnogol yn 1945 a thua diwedd y 1950au daeth Wythnos Cymorth Cristnogol i fodolaeth. Dywedodd Llinos Roberts, Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian Cymru:

> Mae'r gefnogaeth i'r elusen wedi ei sefydlu ym Mhwllheli a'r pentrefi cyfagos ers y cychwyn ac yn parhau'n gryf wrth i gefnogwyr gyfrannu, gweddïo a gweithredu dros ein brodyr a'n chwiorydd ar draws y byd. Roedd yn bleser cael cydnabod hyn drwy gyflwyno'r dystysgrif i Lena. Heb y gefnogaeth gan eglwysi a phwyllgorau Cymorth Cristnogol mewn cymunedau, fyddai dim o waith partneriaid Cymorth Cristnogol yn bosib.
>
> Mae'r wobr hon yn adlewyrchu ymdrechion y tîm cyfan o wirfoddolwyr o bob enwad, cymuned ac ysgol dros y blynyddoedd.

Eleni, mae Cymorth Cristnogol yn nodi 80 mlynedd o weithio gyda phartneriaid mewn cymunedau bregus ar draws y byd, yn darparu cymorth mewn argyfwng yn ogystal â sefydlu prosiectau datblygu hir-dymor.




Dywedodd Lena, 'Braint a phleser oedd y gwaith trefnu ar hyd y blynyddoedd, gwaith y gwnes i wirioneddol ei fwynhau. Mi wnes i fwynhau bod yn drefnydd ac rwyf yn derbyn yr anrhydedd yma ar ran pawb sydd wedi rhoi eu ffydd ar waith ac wedi gwneud gwahaniaeth mawr dros y byd.'

Cyflwynwyd y dystysgrif i Lena gan Llinos, y Parchg Bryn Williams, Daphne Jones (Trysorydd) a Valerie Williams. Dymunwn yn dda i Valerie ar ei chyfnod newydd fel trefnydd ardal Pwllheli.

## Encil y Gweinidogion Cymraeg Undeb Bedyddwyr Cymru

Mae yna groeso cynnes i'n gweinidogion fynychu Encil y Gweinidogion Cymraeg a gynhelir ym Mryn-y-groes, y Bala, ar 2–3 Chwefror 2026 yng nghwmni Rhys Llwyd, Densil Morgan, Rob Nicholls a Danni Worley.

Mawr obeithir y bydd modd i chi ymuno â ni i fwynhau cymdeithas a chwmni'n gilydd. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r swyddfa (post@ubc.cymru), a byddem yn gwerthfawrogi pe baech yn medru cadarnhau eich bwriad i fod yn bresennol erbyn 31 Rhagfyr 2025.




## Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru 2026

Mae'r flwyddyn newydd ar y gorwel, ac rydym yn edrych ymlaen at gyfarfodydd blynyddol yr Undeb yn 2026! Mae croeso mawr i chi ymuno â ni rhwng 18 a 21 Mehefin yn y Tabernacl, Caerdydd.


Thema'r cyfarfodydd fydd 'Rhodiwch mewn Cariad', yn seiliedig ar Effesiaid 5:2.

Bydd amrywiaeth o weithgareddau a chyfarfodydd, yn ogystal ag amser i gymdeithasu, yn ystod y pedwar diwrnod. Nodwch y dyddiadau, os gwelwch yn dda - bydd rhaglen fanwl a ffurflenni cofrestru'n cael eu hanfon allan maes o law.

# Gweddi dros ardal Powys



Wrth yrru'r wyth deg milltir neu fwy ar hyd yr A470 o Ferthyr Tudful i Ddinas Mawddwy rydych wedi gweld cynrychiolaeth dda o Bowys. Er mai dim ond trwy gyfran fach o ddwy fil milltir sgwâr y sir y byddwch chi wedi teithio, mae bron pob agwedd ar ei chymeriad unigryw i'w gweld ar y daith honno.



Mae'r A470 yn dod allan o gefn gwlad y cymoedd diwydiannol gynt yn y de i'r hyn a elwir weithiau'n 'anialwch gwyrdd' y gogledd; mae'n ymdroelli o'r gororau yn y dwyrain i'r Fro Gymraeg i'r gorllewin. Byddwch yn gyrru trwy (ac yn osgoi!) rhai o brif drefi Powys.

A byddwch yn troelli trwy nifer dirifedi o bentrefi a phentrefannau llai a'u tafarndai, eu hysgolion a'u capeli ... mae llawer bellach yn ymddangos fel pe baent yn perthyn i dudalennau llyfr hanes. Byddwch hefyd yn cael eich taro gan fawredd anhygoel ac anghysbell yr ehangder tir (prin ei boblogaeth) hwn yng nghanol Cymru. Dyna a welwch chi, ond beth mae Duw yn ei weld ... a beth allai fod yn ei wneud yn y lle hwn?

Mae'r nefoedd yn dal i ddatgan gogoniant Duw. Ychydig yn unig o'r rhai sy'n byw yma sydd wedi methu ei glywed yn sibrwd ar ryw adeg trwy ei greadigaeth. Mae rhai, ar hyn o bryd, yn anwybyddu neu'n camddehongli'r sibrwd hwn, Ond yn eraill mae'n sbarduno dyhead i glywed mwy.

Mewn gwahanol rannau o'r sir, mae Cristnogion yn ailddarganfod sut i ddefnyddio'r trysorau gweledol anhygoel hyn o'n tirwedd syfrdanol i gyfeirio pobl at Dduw'r greadigaeth sydd wedi datgelu ei hun yn llawn yn Iesu.

Wrth i chi basio nifer o gapeli ac eglwysi gwag sy'n llenwi priffyrdd a ffyrdd cefn Powys, mae'n hawdd anghofio mai'r sir yma oedd man geni'r deffroad efengylaidd mawr yng Nghymru'r ail ganrif ar bymtheg. Gellir maddau i ni hefyd am anghofio natur radical symudiad Ysbryd Duw ar y pryd. O bregethu'r efengyl y tu allan i adeiladau'r eglwys i ddisgyblu credinwyr y tu mewn i gartrefi pobl, mae gwersi i'w dysgu. Ac mae pobl Duw sy'n byw yma heddiw yn parhau i ddysgu! Mae rhai cymunedau bywiog o Gristnogion yn parhau i addoli ac yn tystio i Iesu yn eu hadeiladau, a'r rhain yn aml wedi'u lleoli yn nhrefi mwya'r sir.

Ond hefyd, mae cydnabyddiaeth bod Duw hefyd yn symud ei bobl tuag at rannu'r Newyddion Da mewn ffordd fwy lleol, perthynol a phersonol. Mae cymunedau o Gristnogion yn cael eu plannu mewn ffyrdd newydd ac mewn lleoedd newydd. Yn ogystal, mae Duw yn anfon pobl i arloesi ei waith yn gyd-destunol ymhlith grwpiau penodol o bobl. Yn araf, yn aml yn dawel, mae Duw yn gwneud pethau newydd yma ym Mhowys.

Ac eto mae'r heriau'n parhau'n aruthrol. Mae Powys yn sir sy'n wynebu dyfodol ansicr iawn i'w heconomi wledig yn bennaf. O ganlyniad, mae Powys yn wynebu'r mudo ieuenctid uchaf yn unrhyw le yng Nghymru. Mae anghenion poblogaeth sy'n heneiddio yn aml yn cael eu rhwystro gan gyfyngiadau sector gofal sydd dan bwysau cynyddol. Mae ffermwyr gweithgar yn parhau i geisio llywio'u ffordd trwy faterion cyfoes cymhleth a newidiol.

Os yw'r A470 yn cynnig microcosm o Bowys i'r teithiwr craff, awgrymaf ei bod hefyd yn cynnig trosiad trawiadol. Nid yw'r daith ar hyd yr A470 byth yn gyflym, ac anaml y mae'n cynrychioli'r pellter byrraf rhwng dau bwynt; felly y mae'n ymddangos i gynifer sy'n ceisio gwasanaethu Duw yn y sir heddiw. Eto, i'r rhai sydd â llygaid i weld, boed yn un o'r nifer o ffermydd anghysbell sydd prin yn weladwy neu'r gwahanol drefi a phentrefi ar y ffordd, mae yna bobl y mae Duw yn eu gweld, ac yn eu caru; y mae wedi marw drostynt.

Ymunwch â ni i weddïo dros Bowys – y bydd llawer yn dod i adnabod goleuni'r efengyl drostynt eu hunain.

*Paul Smethurst*

(Allan o Fwletin Mis Tachwedd y mudiad plannu eglwysi 100 i Gymru. I dderbyn y bwletin ac ystyried ei gefnogi, gallwch fynd i'w gwefan: www.100.cymru)

*Mae Paul Smetherst a'i wraig, Robyn, wedi symud i Dalgarth lle mae'n dal y cyfrifoldeb o fod yn Weinidog Cenhadol gydag Undeb y Bedyddwyr ym Mrycheiniog.*




Mae tocynnau'r digwyddiad yma eisoes ar werth – prisiau gostyngol am gyfnod byr! Ymunwch â ni ym mis Chwefror am ddiwrnod arbennig!

Manylion Diwrnod Dros Gymru

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu Cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau Swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
Neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau Swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru